ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRWP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau cyfarfod dydd Gwener 23ain Ionawr 2004, am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Mike Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Ltd
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (DO Cymru)
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carol Williams	CS Penfro/ APCAP
Steve Bool	CBS Pen-y-bont
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru

1. **Ymddiheuriadau**

Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Philip Marks	CYLCH
Huw Jenkins	CBS Pen-y-bont

2. **Nodiadau cyfarfod 11eg Rhagfyr 2003**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir.

Parthed eitem 6 – sefyllfa'r CDUau, dywedodd NB fod Sir Gaerfyrddin wedi cael trafodaethau gyda LlCC a bydd y newidiadau angenrheidiol yn digwydd cyn yr Ymchwiliad.

Ceredigion: I'w gadarnhau.

3. **CGRh - y Diweddaraf/ Amserlen o ran y Cadarnhau**

Nodwyd y canlynol:

CBS Pen-y-bont: wedi'i gadarnhau.
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro: wedi'i gadarnhau.
CBS Castell-nedd Port Talbot: Adroddiad i'r Cabinet 28ain Ionawr.
Dinas a Sir Abertawe: wedi'i gadarnhau.
CS Penfro: Adroddiad i'r Pwyllgor 26ain Ionawr.
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Adroddiad i'r Pwyllgor 30ain Ionawr.
CS Caerfyrddin: adroddiad i'r Pwyllgor.
CS Ceredigion: I'w gadarnhau. **Gweithredu**: GW.

Yng ngoleuni'r amserlen, nodwyd y dylid cadarnhau'r CGRh yn llawn erbyn cyfarfod nesaf Fforwm yr Aelodau ddydd Gwener 20fed Chwefror.

Gofynnodd GW i bob awdurdod roi amcan o'r nifer o'r CGRh y byddai eu hangen arnynt. **Gweithredu**: Pawb. Nodwyd hefyd bod y CGRh wedi'i anfon i'w gyfieithu ond oherwydd maint y

ddogfen na fyddai hwnnw'n barod tan ganol mis Mawrth.

4. **Atodiad CGRh**

Dywedodd CO bod cyfarfod wedi digwydd gyda Karen Black a Miranda Lewis o ran defnyddio G.I.S. i nodi'r darnau o dir ar gyfer cyfleusterau tirlenwi ar draws y rhanbarth.

Nodwyd bod AY ar hyn o bryd yn paratoi rhestr meini prawf a byddai'r gwaith hwnnw wedi'i orffen yn fuan. Fodd bynnag, nid yw'r haenen fap ar gyfer llwybrau cludiant yn gyflawn ac felly bydd yn anodd nodi unrhyw feini prawf pellter. Mae angen ymchwilio i ffyrdd o ymgorffori'r haenen map ffyrdd.

Dywedodd GW bod cyfarfod wedi digwydd gydag Adrian Stewart a Richard Jones (CGAC - WESA) i drafod pryderon y diwydiant. Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Mae'r prif bryder yn ymwneud â graddfa amser cyflwyno'r cyfleusterau newydd – y brif broblem ar hyn o bryd yw prinder safleoedd tirlenwi gwag tymor byr;
- Mae'r arbedion maint sy'n gysylltiedig â safleoedd tirlenwi yn awgrymu mai rhanbarthol yw'r cyfleusterau yn hytrach na lleol;
- Ystyrir compostio gwyrdd yn lleol, a chompostio mewn cynwysyddion yn rhanbarthol;
- Mae gan Ben-y-bont / Abertawe a Chastell-nedd broblem safleoedd tirlenwi; ac
- Mae gormod o ansicrwydd o ran tirlenwi gwastraff peryglus – mae argyfwng ar y gorwel;

O ran gwastraff peryglus, er nad yw Corus wedi diystyru cael cyfleuster gât agored, mewn gwirionedd ni fydd y cyfleusterau angenrheidiol yn barod erbyn Gorffennaf 2004. Felly mae'n rhaid ychwanegu maen prawf arall ar gyfer gwastraff peryglus wrth ddod o hyd i safleoedd tirlenwi.

Awgrymodd SM mai ffordd bosib ymlaen fyddai comisiynu mwy o ymchwil. Fodd bynnag, cytunwyd bod yn rhaid cwblhau gwaith AY cyn penderfynu ynghylch ymchwil bellach. **Gweithredu**: CO i gysylltu ag AY i bennu graddfa amser ar gyfer cwblhau'r gwaith ac adrodd i GW erbyn dydd Gwener 30ain Ionawr. **Gweithredu**: GW i gynnwys yr angen am ymchwil ar agenda nesaf y GTRh.

5. **Cyllid ar gyfer y 3 blynedd nesaf**

Yn dilyn dosbarthu papur drafft oddi wrth LCC, amlinellodd GW yr angen i ystyried sut y dylai'r rhanbarth symud ymlaen ac yn arbennig pwy ddylai barhau i arwain y broses. Nodwyd bod y mater ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Cymru gyfan ddydd Gwener 20fed Chwefror.

Cytunwyd bod angen mynd â'r mater yn ôl at bob awdurdod a dylid ei gynnwys yn agenda cyfarfod nesaf Fforwm yr Aelodau.

Argymhellodd CP y dylai gwaith yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad BPEO. Dylid trosglwyddo unrhyw sylwadau ychwanegol at GW cyn yr 20fed Chwefror. **Gweithredu**: Pawb.

6. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf am 2.00pm, dydd Gwener 27ain Chwefror ym Mhenllergaer.

7. **Unrhyw Fusnes Arall**

Cododd CP fater cost gweithredu'r CGRh. Nodwyd bod Barry Hankey (De-ddwyrain Cymru) wedi cyflwyno prisiad i LCC a bod y mater wedi'i drafod yng nghyfarfod diwethaf CLlLC.

Yn dilyn cais gan CLlLC, cytunwyd y byddai rhanbarth De-orllewin Cymru yn gwneud ymarfer tebyg.